trysor

Nadolig 2021
Christmas 2021

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod rhyfedd arall yn ein hanes. Diolch i'r drefn, cadwon ni weithio trwy'r flwyddyn, er bod yr amodau weithiau'n anodd i bawb. Ond rydym wedi brwydro trwy'r ansicrwydd a'r cyfyngderau ac wedi llwyddo cyflawni digon fel bod modd i ni edrych yn ôl dros y 12 mis diwethaf a dewis rhai uchafbwyntiau i'w fwynhau eleni eto. Gallwn ond obeithio y bydd 2022 yn garedig i'n ffrindiau a'n cyd-weithwyr i gyd ac, yn ôl ein harfer, dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

The past 12 months have been quite a remarkable time by any standards. We are pleased to have been able to continue to do our work, although nothing much seems to have been straightforward for any of us. Despite all the uncertainties and restrictions we've had to work around, we have kept busy and have some highlights to reflect upon again this year. We can only hope that 2022 will be kind to all our friends and colleagues. We wish you the usual Merry Christmas and the Happiest of New Years.

Mae gwyrthiau technoleg yn golygu ein bod ni wedi treulio tipyn o amser eleni - yn y byd rhithwir - ar Ynys Manaw, yn gweithio ar brosiect i Eiraght Ashoonagh Vannin (Treftadaeth Genedlaethol Manaw), yn helpu symud eu cofnodion archaeolegol i sustem newydd. Pleser anferth yw cael cyfle i ymgyfarwyddo ag archaeoleg a hanes yr ynys. Rydym wedi mwynhau dysgu ychydig o'u hiaith frodorol hefyd er mwyn deall enwau lleoedd - mae'n bwysig gwybod gwahaniaethu rhwng eich *keeill* a *cabbal* a'ch *mooar* a *beg* wedi'r cyfan! Felly ***Nollick Ghennal as Blein Vie Noa*** i chi i gyd!



Prosiectau 2021
2021 Projects

The miracles of modern technology have allowed us to spend quite a bit of 2021 - in the virtual world - on the Isle of Man, working on a project for the Manx National Heritage helping transfer the country's HER into a new system. Looking at the archaeology and history of the Isle of Man is a true delight. Learning a bit of the Manx language to enjoy the placenames of the island has added some extra interest to the project. After all, its important to know your *keeill* from your *cabbal* and your *mooar* from your *beg*! So its a ***Nollick Ghennal as Blein Vie Noa*** to you all!

Dros yr haf fe wnaethon ni gofnod adeilad gwirfoddol o Ysgol Uwchradd Cefn Saeson, Cimla, Castell Nedd cyn iddi gael ei dymchwel.
This summer we made a voluntary building recording of Cefn Saeson Comprehensive School, Cimla, Neath before demolition.

Uchafbwyntiau 2021

"Pydew'r Flwyddyn" eleni, heb os nac oni bai, yw'r enghraifft yma ffindon ni wrth wneud brîff gwylio yn ardal Camrhos, Sir Benfro (1). Cafodd dyddiad radiocarbon o 6750CC! Mesolithig! Ein darganfyddiad cynharaf erioed! Doedd dim golosg mewn pydew arall gerllaw ond ddaeth crafwr bach Neolithig allan ohono, a welir yma hefyd. Ar begwn arall, daethon ni ar draws pont tramffordd Ynysafan (2) wrth gasglu deunydd ar gyfer panel hanes lleol i grŵp cymunedol yn y Bryn, ger Port Talbot. Cafodd ei adeiladu tua 1841 i gario tramffordd dros yr Afon Afan i waith copr Cwmafan. Rydym hefyd wedi chwarae rhan mewn prosiectau rheoli effeithiau newid hinsawdd ar dwyni tywod Cynffig, Bro Morgannwg (3) ac hefyd yng nghorsydd mawn Claerwen, uwchlaw Dyffryn Elan, Powys.

Treulion ni rhai diwrnodau diddorol yn cloddio safle lloc Lluest Abercaethon. Cwm Elan (4), ble fuodd Ian Brooks gyda ni yn 2020 i wneud arolwg geoffisegol (ar gyfer prosiect i Ymddiriedolaeth Cwm Elan, sy wedi ei ariannu gan y HLF). Dim ond darnau o grochenwaith y 19eg ganrif ddaeth allan o'n ffos, felly mae llawer o grafu pen o hyd ynglŷn â dyddiad a phwrpas y lloc. Lle unig, ond gawsom gwmni Vic Pardoe, a ddaeth lan am ddiwrnod gyda'i ddrôn, fel y gwnaeth David James, Rhaedr Gwy. Daeth Ian Brooks am ymweliad arall ac roedd ef yn cymryd diddordeb yn y microlith bach Mesolithig ffindon ni yn y pridd - prawf bod helwyr Mesolithig wedi bod yn yr ardal.

Diddorol oedd dod ar draws carnedd gylchog annisgwyl (5) o fewn mynwent o garneddau cofrestredig ar Ros Llangeler, Sir Gâr, diolch i dystiolaeth hen luniau o'r awyr. Gwelir darn o Linell Amddiffyn Sir Gaerfyrddin ar y chwith yn y llun, gafodd ei godi ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Mae Oes y Cofid wedi cynyddu'r galw am atgyweirio a throsi hen adeiladau fferm a bythynnod er mwyn creu cartrefi newydd. Felly, rydym wedi ymweld â llawer o adeiladau diddorol eleni a fydd, gobeithio, yn cael bywyd newydd fel canlyniad (6 & 7).



Highlights of 2021

The "Pit of the Year" was definitely one we found during a watching brief at Camrose, Pembrokeshire (1), which produced a radiocarbon date of 6750BC! Mesolithic! Our earliest find. Another pit at the site had no charcoal but contained a nice Neolithic scraper, also shown. At the other end of the scale, we did a panel for a community group at Bryn, Port Talbot, which included the lovely Ynysafan tramway bridge (2), built c. 1841 to take coal to the Cwmafan Copper Works. We have also been engaged in climate change management projects at Kenfig Dunes in the Vale of Glamorgan (3) as well as in the peat bogs of Claerwen, above the Elan Valley.

A useful few days were spent at Lluest Abercaethon in the Elan Valley (4) digging a 10 metre trench on the enclosure there where we had Ian Brooks do a geophysical survey in 2020 (for this HLF funded Elan Trust project). The trench produced only 19th century crockery, so we are still pondering on that one. Vic Pardoe brought his drone for a day, as did David James of Rhayader and Ian Brooks visited again and took away a single Mesolithic microlith we found in the topsoil - proof that Mesolithic hunters had been in the valley.

We found an unexpected ring barrow (5) within a recognised barrow cemetery on Rhos Llangeler, Carmarthenshire, showing the value of aerial photographs. The WW2 Carmarthenshire Stop Line is to the left in the photo. Probably as a response to the Covid Age we've also seen a real demand for building recording projects where plans have been made to replace or convert old barns and cottages. As a result we have been introduced to some lovely buildings which will hopefully be given new leases of life (6 & 7).